## Adnodd 9 – Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Seiberdroseddu<br>Cyber crime | Cyflawnir seiberdroseddu pan gaiff dyfeisiau digidol eu defnyddio yn anghyfreithlon yn erbyn pobl a systemau eraill. |
| Cicio<br>Booting | Mae hwn yn fath o ymosodiad atal gwasanaeth (DOS), lle y gallwch beri i rywun fynd all-lein wrth chwarae gêm ar-lein. |
| Botrwyd<br>Botnet | Rhwydwaith o gyfrifiaduron preifat wedi'u heintio â meddalwedd faleisus a'i reoli fel grŵp heb yn wybod i'r perchnogion, e.e. anfon negeseuon e-bost sbam. |
| Ymosodiad Atal Gwasanaeth<br>Denial Of Service Attack | Ymgais i sicrhau nad yw peiriant nac adnodd rhwydwaith ar gael i'w ddefnyddwyr bwriadedig, megis atal neu ymyrryd â gwasanaethau gwesteiwr sydd wedi'i gysylltu â'r Rhyngrwyd dros dro neu am gyfnod amhenodol. |
| Wal Dân<br>Firewall | Rhwystr diogelwch sydd wedi'i gynllunio i gadw tresmaswr 'y tu allan' i system neu rwydwaith cyfrifiadurol, gan alluogi cyfathrebu diogel rhwng systemau a defnyddwyr ar 'y tu mewn'. |
| 'Fraping' | Pan fydd rhywun yn defnyddio eich cyfrif Facebook heb eich caniatâd ac yn dinistrio eich sylwadau neu'n creu sylwadau newydd ac yn lanlwytho lluniau. |
| Hacio<br>Hacking | Cael mynediad heb awdurdod at ddata mewn system neu gyfrifiadur. |
| Dwyn Hunaniaeth<br>Identity Theft | Yr arfer twyllodrus o ddefnyddio enw a gwybodaeth bersonol person arall er mwyn cael credyd, benthyciadau ac ati. |
| Addasu<br>Modding | Addasu er mwyn newid rhyw agwedd ar gêm cyfrifiadur megis sut mae'n edrych neu'n ymddwyn, e.e. addasu gallu cymeriad o fewn gêm. Fel arfer, mae addasu yn waharddedig mewn gemau cystadleuol aml-chwaraewr; yn gyfartal, ceir rhai gemau sy'n caniatáu neu'n annog addasu. |
| Gwe-rwydo<br>Phishing | Yr arfer twyllodrus o anfon negeseuon e-bost sy'n awgrymu eu bod wedi'u hanfon gan gwmnïau neu sefydliadau ag enw da er mwyn dylanwadu ar unigolion i ddatgelu gwybodaeth bersonol ar-lein. |
| Sbamio | Anfon yr un neges yn ddiwahân at nifer fawr o ddefnyddwyr y Rhyngrwyd. |
| Trolio | Mae hyn yn digwydd pan fydd person yn rhoi negeseuon ar-lein sy'n amhriodol neu'n ffiaidd i achosi niwed. |
| Feirws | Rhaglen neu god maleisus sy'n cysylltu ei hun wrth ffeil rhaglen arall ac a all atgynhyrchu ei hun ac felly heintio systemau eraill. |


Heddlu Gwent Police © 2018